



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2002 Rhif 2303 (Cy.228)**

**2002 No. 2303 (W.228)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

**Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

**The Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru ac y mae ei effaith yn darfod ar 1 Chwefror 2003, yn datgymhwyso a disodli dros dro Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995 (O.S. 1995/11, fel y'i diwygiwyd) ("Gorchymyn 1995"). Mae'n cydgrynhoi (gyda diwygiadau) y newidiadau dros dro i Orchymyn 1995, a wnaed gan Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/281 (Cy.33)) ("Gorchymyn 2002").

This Order, which applies to Wales and ceases to have effect on 1st February 2003, temporarily dis-applies and replaces the Pigs (Records, Identification and Movement) Order 1995 (S.I. 1995/11, as amended) ("the 1995 Order"). It consolidates (with amendments) the temporary changes to the 1995 Order, made by The Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) Order 2002 (S.I. 2002/281 (W.33)) ("the 2002 Order").

Yn ychwanegol at y newidiadau a wnaed gan Orchymyn 2002, mae'r Gorchymyn hwn -

In addition to the changes made by the 2002 Order, this Order -

- (a) yn estyn y cyfnod y mae'r mesurau yn parhau mewn grym i 1 Chwefror 2003;
- (b) yn dileu'r ffurfiau amrywiol ar ddatganiad a nodwyd yn yr Atodlenni i Orchymyn 1995 ac yn eu lle yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfen symud sy'n cynnwys gwybodaeth benodol gyd-fynd â phob symudiad moch (heblaw moch anwes) (erthygl 9); a
- (c) yn ei gwneud yn ofynnol cael trwydded symud ar gyfer symud moch anwes, ac yn nodi ffurf y drwydded honno (erthygl 10).

- (a) extends the period that the measures remain in force to 1st February 2003;
- (b) removes the various forms of declaration set out in the Schedules to the 1995 Order and instead requires that all movements of pigs (other than pet pigs) are accompanied by a movement document containing certain information (article 9); and
- (c) requires, and sets out the form of, a movement licence for the movement of pet pigs (article 10).

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

A regulatory appraisal has not been prepared for this Order.

**2002 Rhif 2303 (Cy.228)****2002 No. 2303 (W.228)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****IECHYD ANIFEILIAID****ANIMAL HEALTH**

**Gorchymyn Moch (Cofnodion,  
Adnabod a Symud) (Mesurau Dros  
Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

**The Pigs (Records, Identification  
and Movement) (Interim Measures)  
(Wales) (No.2) Order 2002**

*Wedi'i wneud am 11:30 a.m ar 5 Medi 2002*  
*Yn dod i rym 6 Medi 2002*

*Made at 11:30 a.m on 5th September 2002*  
*Coming into force 6th September 2002*

TREFN YR ERTHYGLAU

ARRANGEMENT OF ARTICLES

**Erthygl****Article**

## RHAN I

## PART I

*Rhagarweiniol**Preliminary*

1. Teitl, cymhwyso, cychwyn a darfod
2. Dehongli

1. Title, application, commencement and cessation
2. Interpretation

## RHAN II

## PART II

*Cofnodion ac adnabod moch**Records and identification of pigs**Cofnodion moch**Records of pigs*

3. Cofnodion a hysbysiadau daliadau
4. Cofnodion moch

3. Records and notifications of holdings
4. Records of pigs

*Adnabod moch**Identification of pigs*

5. Marciau adnabod
6. Tagiau clust

5. Identification marks
6. Ear tags

## RHAN III

## PART III

*Symud moch**Movement of pigs*

7. Gwahardd rhai symudiadau moch
8. Cyfyngu ar symudiadau moch o fewn 20 diwrnod o symudiad blaenorol

7. Prohibition on certain movements of pigs
8. Restriction on movement of pigs within 20 days of a previous movement

9. Rheoleiddio symud moch (heblaw moch anwes)
10. Rheoleiddio symud moch anwes
11. Rheoleiddio gwerthiannau moch
12. Darpariaethau ynghylch trwyddedau, a.y.y.b.

9. Regulation of movement of pigs (other than pet pigs)
10. Regulation of movement of pet pigs
11. Regulation of sales of pigs
12. Provisions as to licences, etc.

RHAN IV

*Amrywiol*

13. Gorfodi
14. Dirymu a.y.y.b.
15. Ffurflenni

PART IV

*Miscellaneous*

13. Enforcement
14. Revocations etc.
15. Forms

YR ATODLENNI

- Atodlen 1 Cofnod daliad o symudiadau  
Atodlen 2 Symud moch anwes

SCHEDULES

- Schedule 1 Holding movement record  
Schedule 2 Movement of pet pigs

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, gan weithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 8 a 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a) yn gwneud y Gorchymyn canlynol-

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them by sections 1, 8 and 83(2) of the Animal Health Act 1981(a) make the following Order-

RHAN I

RHAGARWEINIOL

**Teitl, cymhwyso, cychwyn a darfod**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 ac mae'n gymwys i Gymru yn unig.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Medi 2002 a bydd ei effaith yn darfod ar 1 Chwefror 2003.

PART I

PRELIMINARY

**Title, application, commencement and cessation**

1.-(1) This Order may be cited as the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002 and applies to Wales only.

(2) This Order shall come into force on 6th September 2002 and shall cease to have effect on 1st February 2003.

(a) 1981 p.22. *Gweler* adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers". Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd pwerau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac i'r graddau yr oedd y pwerau hynny yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, fe'u trosglwyddwyd i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/ 794).

(a) 1981 c.22. *See* section 86(1) for the definitions of "the Ministers". In relation to Wales, the powers of "the Ministers" so far as exercisable by the Secretary of State for Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and in so far as such powers were exercisable by the Secretary of State for Scotland, they were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). The functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were subsequently transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/ 794).

## Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall -

ystyr "anifail" ("*animal*") yw gwartheg (ac eithrio buail a iacod), ceirw, geifr, defaid ac anifeiliaid o deulu'r mochyn;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros foch hyd yn oed dros dro, ond nid yw'n cynnwys unrhyw berson sy'n geidwad ond am ei fod yn cludo'r anifeiliaid;

ystyr "canolfan gasglu" ("*collecting centre*") yw safle sy'n cael ei ddefnyddio fel canolfan hanner-ffordd ar gyfer derbyn anifeiliaid y bwriedir eu symud i rywle arall ac mae'n cynnwys unrhyw le a ddefnyddir, boed fel marchnad neu fel arall, ar gyfer gwerthu neu fasnachu anifeiliaid ond dim ond os bwriedir i'r anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu neu eu masnachu gael eu cigyddu ar unwaith wedi hynny;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw sefydliad, adeiladwaith neu, yn achos fferm awyr agored, unrhyw le y mae anifeiliaid yn cael eu dal, eu cadw neu eu trin;

ystyr "fferm" ("*farm*") yw unrhyw ddaliad y mae moch yn cael eu cadw arno er mwyn eu bridio neu eu pesgi;

bydd i "grŵp meddiannaeth unigol" ("*sole occupancy group*") yr ystyr a roddir iddo yng Ngorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(a);

mae i "lladd-dy" yr ystyr a roddir i "*slaughterhouse*" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995(b);

ystyr "marc adnabod" ("*identification mark*") yw marc sy'n cydymffurfio ag erthygl 5;

ystyr "marchnad" ("*market*") yw marchnadle neu iard gwerthu neu unrhyw safle neu le arall y deuir ag anifeiliaid iddo o leoedd eraill a'u cynnig i'w gwerthu; ac mae'n cynnwys unrhyw le sy'n cyffinio â'r safle hwnnw ac sy'n cael ei ddefnyddio gan ymwelwyr â'r farchnad ar gyfer parcio cerbydau ac unrhyw loc sy'n cyffinio â marchnad ac sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â hi;

ystyr "rhif adnabod y daliad" ("*identification number of the holding*") yw'r cod rhifiadol a neilltuir i'r daliad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "rhif daliad" ("*CPH number*") yw'r rhif daliad a neilltuir o dro i dro i unrhyw safle neu ran o unrhyw safle gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Interpretation

2.-(1) In this Order, unless the context otherwise requires-

"animal" ("*anifail*") means cattle (excluding bison and yak) deer, goats, sheep and swine;

"collecting centre" ("*canolfan gasglu*") means premises used for the intermediate reception of animals intended to be moved elsewhere and includes any place used, whether as a market or otherwise, for the sale or trading of animals but only where the animals being sold or traded are intended for immediate slaughter thereafter;

"CPH number" ("*rhif daliad*") means the holding number assigned from time to time to any premises or part of any premises by the National Assembly for Wales;

"farm" ("*fferm*") means any holding on which pigs are kept for the purpose of breeding or fattening them;

"holding" ("*daliad*") means any establishment, construction or, in the case of an open air farm, any place in which animals are held, kept or handled;

"identification mark" ("*marc adnabod*") means a mark complying with article 5;

"identification number of the holding" ("*rhif adnabod y daliad*") means the numeric code which is allotted to the holding by the National Assembly for Wales;

"keeper" ("*ceidwad*") means any person having care and control of pigs even on a temporary basis but not including any person who is only a keeper because he is transporting the animals;

"market" ("*marchnad*") means a market place or sale-yard or any other premises or place to which animals are brought from other places and exposed for sale; and includes any place adjoining those premises used by visitors to the market for parking vehicles and any lairage adjoining a market and used in connection with it;

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") has the meaning given in regulation 2(1) of the Fresh Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995(a); and

"sole occupancy group" ("*grŵp meddiannaeth unigol*") has the meaning given to it in the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002(b).

(a) O.S. 2002/2304 (Cy.229).

(b) O.S. 1995/539, y mae diwygiadau iddynt, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(a) S.I. 1995/539, to which there are amendments not relevant to this Order.

(b) S.I. 2002/2304 (W.229)..

(2) Bydd yn ffordd ddigonol o gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i wneud cais, dyroddi trwydded, hysbysiad, awdurdod neu awdurdodiad, adneuo dogfen neu anfon neu roi dogfen, neu sy'n caniatáu gwneud hynny, os cyflawnir hyn drwy gyfrwng gwasanaeth trosglwyddo ffacsimili.

## RHAN II

### COFNODION AC ADNABOD MOCH

#### COFNODION MOCH

##### **Cofnodion a hysbysiau daliadau**

3.-(1) Rhaid i berchennog unrhyw fochyn ar ddaliad neu berson sydd â gofal drosto i hysbysu'n ysgrifenedig y Swyddog Milfeddygol Rhanbarthol ar gyfer yr ardal lle mae'r daliad o'r canlynol-

- (a) cyfeiriad y daliad;
- (b) enw a chyfeiriad perchennog neu feddiannydd y daliad;
- (c) rhif adnabod y daliad (os yw'n hysbys i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad); ac
- (ch) rhywogaeth unrhyw anifail sy'n cael ei gadw ar y daliad.

(2) Yn achos daliad a sefydlwyd ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, rhaid cydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (1) o fewn un mis o sefydlu'r daliad.

(3) O fewn un mis o wneud unrhyw newid i'r manylion a hysbyswyd neu unrhyw ychwanegiad at yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1), rhaid i berchennog neu geidwad unrhyw fochyn ar ddaliad hysbysu'r Swyddog Milfeddygol Rhanbarthol yn ysgrifenedig o'r newid neu'r ychwanegiad.

(4) Rhaid i berchennog neu geidwad mochyn ar ddaliad roi'r manylion a hysbyswyd i arolygydd os gofynnir iddo wneud hynny.

(5) Yn yr erthygl hon ystyr "Swyddog Milfeddygol Rhanbarthol" yw'r arolygydd milfeddygol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r swydd honno ar gyfer yr ardal lle mae'r daliad.

##### **Cofnodion moch**

4.-(1) Rhaid i berchennog neu geidwad mochyn ar ddaliad wneud cofnod a'i gadw-

- (a) ar y ffurf a nodir yn Atodlen 1 mewn perthynas â phob symudiad moch i'r daliad neu ohono; a
- (b) o uchafswm y moch sy'n bresennol fel arfer ar y daliad (a hynny'n cael ei ddiwygio o leiaf bob blwyddyn).

(2) It shall be sufficient compliance with any provision of this Order requiring or permitting the making of an application, the issue of a licence, notice, authority or authorisation, the depositing of a document or the sending or giving of a document to effect this by means of a facsimile transmission service.

## PART II

### RECORDS AND IDENTIFICATION OF PIGS

#### RECORDS OF PIGS

##### **Records and notifications of holdings**

3.-(1) The owner or keeper of any pig on a holding shall notify in writing the Divisional Veterinary Officer for the area in which the holding is situated of-

- (a) the address of the holding;
- (b) the name and address of the owner or occupier of the holding;
- (c) the identification number of the holding (if known to the person giving the notification); and
- (d) the species of any animal kept on the holding.

(2) In the case of a holding established after this Order comes into force, the duty imposed by paragraph (1) shall be complied with within one month of the establishment of the holding.

(3) Within one month of any change being made in the notified particulars or of any addition to the information referred to in paragraph (1), the owner or keeper of any pig on a holding shall in writing notify the Divisional Veterinary Officer of the change or the addition.

(4) The owner or keeper of a pig on a holding shall give the notified particulars to an inspector if requested to do so.

(5) In this article "Divisional Veterinary Officer" means the veterinary inspector appointed as such by the Secretary of State for the area in which the holding is situated.

##### **Records of pigs**

4.-(1) The owner or keeper of a pig on a holding shall make and maintain a record-

- (a) in the form set out in Schedule 1 in respect of each movement of pigs to or from the holding; and
- (b) of the maximum number of pigs ordinarily present on the holding (revised at least annually).

(2) Yn achos unrhyw berson sy'n gwerthu unrhyw fochyn (p'un ai drwy arwerthiant neu drwy gytundeb preifat) ar safle sy'n cael ei ddefnyddio fel marchnad ar gyfer moch drwy arwerthiant, rhaid iddo wneud cofnod ysgrifenedig (yn ychwanegol at y cofnodion sy'n ofynnol o dan baragraff (1) uchod) o enw a chyfeiriad gwerthwr a phrynwr pob lot foch, a rhif y gorlan neu'r corllannau lle'r oedd pob lot yn cael ei chadw, a chadw'r cofnod hwnnw yn ei feddiant.

(3) Rhaid i bob cofnod o dan yr erthygl hon-

- (a) cael ei wneud o fewn 36 awr ar ôl i'r symudiad neu'r gwerthiant gael ei gofnodi; a
- (b) cael ei gadw yn ei feddiant gan berchennog neu geidwad y mochyn neu berchennog y daliad neu'r person sydd â'r gofal drosto am gyfnod o dair blynedd o ddiwedd y flwyddyn y gwnaed y cofnod diwethaf ynddi.

(4) Os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd ar unrhyw adeg resymol, rhaid i unrhyw berson sydd â gofal am y tro dros unrhyw gofnod y mae'n ofynnol ei gadw o dan yr erthygl hon ddangos y cofnod hwnnw a chaniatáu i gopi gael ei wneud ohono.

(5) Os yw cofnod y mae'n ofynnol ei gwneud o dan yr erthygl hon yn cael ei gwneud ar ffurf electronig neu fagnetig, mae cyfeiriadau ym mharagraff (4)-

- (a) at ddangos y cofnod yn gyfeiriadau at ei ddangos ar ffurf ysgrifenedig, os dyna beth y mae ar yr arolygydd yn ei fynnu; a
- (b) at gymryd darnau neu gopïau o'r cofnod yn gyfeiriadau at eu cymryd ar ffurf ysgrifenedig.

## ADNABOD MOCH

### Marciau adnabod

5.-(1) Ni chaiff neb symud mochyn gyda golwg ar ei symud i le y tu allan i Brydain Fawr oni bai ei fod yn cael ei farcio, cyn i'r symudiad ddechrau, â marc adnabod (y mae'n rhaid iddo fod yn ddarllenadwy drwy gydol oes y mochyn y mae'n cael ei ddodi arno) ar ffurf clust neu datw.

(2) Rhaid i'r marc adnabod y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1)-

- (a) gynnwys y cod gwlad 'UK' a marc cenfaint y daliad lle mae'r marc yn cael ei ddodi; a
- (b) rhaid iddo gynnwys rhif gwahaniaethol a neilltuwyd i'r mochyn gan ei berchennog neu geidwad, ac yn achos tag clust, rhaid doddi'r llythyren "P" o flaen y rhif hwnnw.

(3) Ni fydd yn gyfreithlon symud mochyn o ddaliad (ac eithrio gyda golwg ar ei symud i le y tu allan i Brydain Fawr) oni bai ei fod yn cael ei farcio, cyn i'r symudiad ddechrau -

(2) In the case of any person who sells any pig (whether by auction or by private treaty) on premises used as a market of pigs by auction, he or she shall (in addition to the records required by paragraph (1) above) make and retain a written record of the name and address of the vendor and purchaser of each lot of pigs, and the number of the pen or pens in which each lot was held.

(3) Every record under this article shall-

- (a) be made within 36 hours after the movement or sale recorded; and
- (b) be retained by the owner or keeper of the pig or the owner or person in charge of the holding for a period of three years from the end of the year in which the last entry was made.

(4) Any person who is for the time being in charge of any record required to be kept under this article shall, on demand made by an inspector at any reasonable hour, produce the record and allow a copy to be made of it.

(5) Where a record required to be made under this article is made in electronic or magnetic form, references in paragraph (4)-

- (a) to production of the record are, if the inspector so requires, references to its production in written form; and
- (b) to taking of extracts or copies of the record are references to the taking thereof in written form.

## IDENTIFICATION OF PIGS

### Identification marks

5.-(1) No person shall move a pig with a view to its being moved to a place outside Great Britain unless, before the movement commences, it is marked with an identification mark (which shall be legible for the life of the pig to which it is applied) in the form of an ear tag or of a tattoo.

(2) The identification mark referred to in paragraph (1)-

- (a) shall comprise the country code 'UK' and the herd mark of the holding on which the mark is applied; and
- (b) shall include a distinctive number allotted to the pig by its owner or keeper, prefixed, in the case of an ear tag, by the letter "P".

(3) It shall not be lawful to move a pig from a holding (other than with a view to it being moved outside Great Britain) unless, before the movement commences, it is marked-

- (a) yn achos mochyn sy'n cael ei symud i arddangosfa neu sioe neu at ddibenion bridio ac y bwriedir ei ddychwelyd i'r safle y mae'n cael ei symud ohono, â marc adnabod sy'n cynnwys marc cefnaint y daliad lle dodir y marc a rhif adnabod unigol unigryw a neilltuwyd i'r mochyn gan ei berchennog neu geidwad; neu
- (b) ym mhob achos arall-
  - (i) â marc adnabod sy'n cydymffurfio â pharagraff (2) neu (3)(a); neu
  - (ii) â marc adnabod a fydd yn para o leiaf tan yr amser y bydd y mochyn yn cyrraedd ei gyrchfan ac sy'n caniatáu, naill ar ei ben ei hun neu drwy gyfeiriad at ddogfen sy'n cyd-fynd â'r mochyn yn ystod y symudiad, i'r daliad y symudwyd y mochyn ohono ddiwethaf gael ei adnabod.

(4) Ac eithrio yn unol ag awdurdod a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol, ni fydd yn gyfreithlon i unrhyw berson-

- (a) tynnu oddi ar fochyn farc adnabod sydd wedi'i ddodi arno neu wedi'i roi ynghlwm wrtho yn unol â darpariaethau blaenorol yr erthygl hon; na
- (b) amnewid marc adnabod a ddodwyd ar fochyn neu a roddwyd ynghlwm wrtho yn unol â'r darpariaethau hynny ac eithrio er mwyn amnewid un sydd wedi mynd yn anarllennadwy neu sydd wedi mynd ar goll.

### Tagiau clust

6.-(1) Ni chaiff neb roi marc adnabod ar ffurf tag clust ynghlwm wrth fochyn oni bai bod y tag clust yn bodloni darpariaethau paragraff (2); ac yn y Gorchymyn hwn mae cyfeiriadau at dag clust yn gyfeiriadau at dag clust sy'n bodloni'r darpariaethau hynny.

- (2) Rhaid i dag clust fod wedi'i lunio yn y fath fodd -
  - (a) ag i beidio ag effeithio'n andwyol ar lesiant y mochyn y mae ynghlwm wrtho;
  - (b) ag i fod yn amhosibl ei newid mewn ffordd nad yw'n caniatáu sylwi'n rhwydd fod newid wedi digwydd; a
  - (c) ag i fod yn amhosibl ei aildefnyddio.

## RHAN III SYMUD MOCH

### Gwahardd rhai symudiadau moch

- 7.-(1) Ni chaiff neb -
  - (a) symud mochyn neu beri iddo gael ei symud o farchnad neu ganolfan gasglu i farchnad neu

- (a) in the case of a pig moving to an exhibition or show or for breeding purposes and which is intended to be returned to the premises from which it is moved, with an identification mark comprising the herd mark of the holding on which the mark is applied and a unique individual identification number allotted to the pig by the owner or person in charge of it; or
- (b) in all other cases-
  - (i) with an identification mark which complies with paragraph (2) or (3)(a); or
  - (ii) with an identification mark which will last at least until the pig reaches its destination and which, either by itself or by reference to a document accompanying the pig during the movement, enables the holding from which the pig was last moved to be identified.

(4) Save in accordance with an authority issued by a veterinary inspector, it shall not be lawful for any person-

- (a) to remove from a pig an identification mark which has been applied or attached to it in accordance with the foregoing provisions of this article; or
- (b) to replace an identification mark applied or attached to a pig in accordance with those provisions otherwise than in replacement of one which has become illegible or which has been lost.

### Ear tags

6.-(1) No person shall attach an identification mark to a pig in the form of an ear tag unless the ear tag satisfies the provisions of paragraph (2); and in this Order references to an ear tag are to an ear tag which satisfies those provisions.

- (2) An ear tag shall be so constructed as-
  - (a) not adversely to affect the well-being of the pig to which it is attached;
  - (b) to be incapable of being altered in such a way that the fact of alteration cannot be readily observed; and
  - (c) to be incapable of re-use.

## PART III MOVEMENT OF PIGS

### Prohibition on certain movements of pigs

- 7.-(1) No person shall-
  - (a) move or cause to be moved a pig from a market or collecting centre to another market

ganolfan gasglu arall (ac eithrio i ganolfan gasglu ar gyfer moch y bwriedir eu cigydda ar unwaith);

- (b) symud mochyn i ladd-dy ac eithrio er mwyn ei gigydda o fewn 48 awr ar ôl iddo gyrraedd yno;
- (c) mynd â mochyn o ladd-dy ac eithrio ar ôl iddo gael ei gigydda; neu
- (ch) dychwelyd mochyn i fferm o farchnad ar gyfer moch y bwriedir eu cigydda ar unwaith.

### **Cyfngiad ar symud moch o fewn 20 diwrnod o symudiad blaenorol**

8.-(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr erthygl hon, pryd bynnag y mae unrhyw anifail wedi'i symud i unrhyw safle, ni chaiff neb symud unrhyw fochyn o'r safle hwnnw (nac o unrhyw safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol) cyn y daw i ben gyfnod o 20 diwrnod o'r diwrnod y danfonwyd yr anifail y cyfeiriwyd ato gyntaf i'r safle hwnnw.

(2) Ni fydd y cyfyngiad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff (1) yn gymwys yn unrhyw un o'r achosion a nodir yn erthygl 3(2) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(a).

(3) Er gwaethaf y gwaharddiad ym mharagraff (1), rhaid peidio â rhoi unrhyw ystyriaeth i'r symudiadau canlynol-

- (a) unrhyw symudiad y cyfeirir ato yn erthygl 3(3) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002; na
- (b) symudiad mochyn y bwriedir ei fridio neu beri iddo dyfu o ffynhonnell a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i unrhyw safle, pan fydd y symudiad hwnnw wedi'i awdurdodi yn unol ag amodau a nodwyd yn ysgrifenedig gan arolygydd milfeddygol.

### **Rheoleiddio symud moch (heblaw moch anwes)**

9.-(1) Heb ragfarnu erthyglau 7 ac 8, ni chaiff neb symud mochyn (ac eithrio mochyn sy'n cael ei gadw fel anifail anwes yn unig) na pheri iddo gael ei symud o unrhyw safle, oni bai bod dogfen sydd wedi'i llofnodi gan berchennog y mochyn neu ei asiant yn cyd-fynd â'r mochyn a bod y ddogfen honno'n nodi-

- (a) cyfeiriad gan gynnwys cod post a rhif daliad y safle y mae'r mochyn yn cael ei symud ohono, a'r safle y mae'n cael ei symud iddo;
- (b) y dyddiad y mae'r symudiad yn digwydd;
- (c) nifer y moch y mae'r ddogfen symud yn ymdrin ag ef;
- (ch) marc adnabod pob un o'r moch sy'n cael eu symud;
- (d) yn achos symudiad o farchnad, rhifau lot y

(a) O.S. 2002/2304 (Cy.229).

or collecting centre (other than a collecting centre for pigs intended for immediate slaughter);

- (b) move a pig to a slaughterhouse save for the purpose of slaughter within 48 hours of its arrival there;
- (c) remove a pig from a slaughterhouse except after slaughter; or
- (d) return a pig to a farm from a market for pigs intended for immediate slaughter.

### **Restriction on movement of pigs within 20 days of a previous movement**

8.-(1) Subject to the following provisions of this article, whenever any animal has been moved to any premises, no person shall move any pig from those premises (or any other premises in the same sole occupancy group) before the expiry of a period of 20 days from the day on which the animal first referred to was delivered to those premises.

(2) The restriction contained in paragraph (1) shall not apply in any of the cases set out in article 3(2) of the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002(a).

(3) Notwithstanding the prohibition in paragraph (1), no account shall be taken of the following movements-

- (a) any movement referred to in article 3(3) of the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002; or
- (b) movement of a pig intended for breeding or growing from a source approved by the National Assembly for Wales onto any premises, when such movement is authorised in accordance with conditions set out in writing by a veterinary inspector.

### **Regulation of movement of pigs (other than pet pigs)**

9.-(1) Without prejudice to articles 7 and 8, no person shall move or cause to be moved a pig (other than a pig that is kept solely as a pet) from any premises, unless it is accompanied by a document signed by the owner of the pig or his or her agent and which specifies-

- (a) the address including postcode and CPH number of the premises from, and to which the pig is being moved;
- (b) the date on which the movement is taking place;
- (c) the number of pigs that the movement document covers;
- (d) the identification mark of each of the pigs being moved;
- (e) in the case of a movement from a market, the

(a) S.I. 2002/2304 (W.229).



moch sy'n cael eu symud.

(2) Pan fydd y moch yn cyrraedd eu gyrchfan, rhaid i'r person sy'n symud y moch roi'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) i'r ceidwad yn safle'r gyrchfan a rhaid iddo yntau ei gadw yn ei feddiant am gyfnod o 6 mis.

(3) Rhaid i'r ceidwad yn safle'r gyrchfan, o fewn 3 diwrnod ar ôl i'r moch gyrraedd yno, anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae safle'r gyrchfan wedi'i leoli.

(4) Rhaid i geidwad mochyn sy'n cael ei symud i safle y tu allan i Brydain Fawr anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) i'r Awdurdod Lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r safle y mae'r moch yn cael eu symud ohono wedi'i leoli.

### **Rheoleiddio symudiadau moch anwes**

**10.**-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff neb symud mochyn sy'n cael ei gadw fel anifail anwes yn unig, na pheri iddo gael ei symud, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd o dan yr erthygl hon sydd ar y ffurf a nodir yn Atodlen 2.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys pan fydd y mochyn yn cael ei symud dros dro o'r safle er mwyn cael triniaeth filfeddygol frys.

(3) Caiff trwydded o dan yr erthygl hon gael ei dyroddi gan un o arolygwyr yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r symudiad yn dechrau neu gan un o arolygwyr yr Ysgrifennydd Gwladol.

### **Rheoleiddio gwerthiannau moch**

**11.**-(1) Ni chaiff neb gynnal gwerthiant moch ar fferm ac eithrio yn unol â thrwydded a ddyroddwyd gan un o arolygwyr yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r fferm wedi'i lleoli.

(2) Rhaid peidio â dyroddi trwydded o dan baragraff (1) uchod, a rhaid peidio â chynnal gwerthiant, ac eithrio -

- (a) os bydd y gwerthiant yn cynnwys dim ond moch sy'n ffurfio'r cyfan neu ran o genfaint sefydlog y fferm honno, a
- (b) os nad oes unrhyw anifeiliaid (heblaw anifeiliaid sydd wedi'u symud i'r fferm yn unol â darpariaethau erthygl 3(3) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002) wedi'u symud i'r fferm honno ar ddiwrnod y gwerthiant neu o fewn cyfnod o 20 diwrnod cyn diwrnod y gwerthiant.

### **Darpariaethau ynghylch trwyddedau, a.y.y.b**

**12.**-(1) Bydd unrhyw drwydded a ddyroddir at ddibenion y Rhan hon yn ddilys am y cyfnod sydd wedi'i ddatgan ynddi yn unig.

lot numbers of the pigs being moved.

(2) When the pigs arrive at their destination, the person moving the pigs shall give the document referred to in paragraph (1) to the keeper at the premises of destination who shall retain it for a period of 6 months.

(3) The keeper at the premises of destination shall, within 3 days of the arrival of pigs, send a copy of the document referred to in paragraph (1) to the local authority for the area in which the premises of destination are situated.

(4) The keeper of a pig being moved to premises outside Great Britain shall send a copy of the document referred to in paragraph (1) to the local authority for the area in which the premises from which the pigs are being moved, are situated.

### **Regulation of movement of pet pigs**

**10.**-(1) Subject to paragraph (2), no person shall move, or cause to be moved from any premises, a pig kept solely as a pet, except under the authority of a licence issued under this article and in the form set out in Schedule 2.

(2) Paragraph (1) shall not apply where the pig is being moved temporarily from the premises for the purpose of emergency veterinary treatment.

(3) A licence under this article may be issued by an inspector of the local authority for the area in which the movement commences or by an inspector of the Secretary of State.

### **Regulation of sales of pigs**

**11.**-(1) No person shall hold a sale of pigs on a farm except in accordance with a licence issued by an inspector of the local authority for the area in which the farm is situated.

(2) A licence under paragraph (1) above shall not be issued, and a sale shall not be held, unless-

- (a) the sale will comprise only pigs forming the whole or part of the standing herd of that farm, and
- (b) no animals (other than animals moved on to the farm in accordance with the provisions of article 3(3) of the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002) have been moved on to that farm on the day of sale or within a period of 20 days preceding the day of sale.

### **Provisions as to licences, etc.**

**12.**-(1) Any licence issued for the purposes of this Part shall be valid only for the period stated in it.

(2) Rhaid i unrhyw drwydded, hysbysiad, awdurdod, neu awdurdodiad o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig ac-

- (a) bod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a bennir ynddynt; a
- (b) caniateir i'r dogfennau hyn gael eu hamrywio, eu hatal neu eu dirymu gan yr awdurdod dyrannu drwy hysbysiad a roddir i'r person y mae'n cael ei ddyroddi iddo ond heb ragfarnu unrhyw beth a wneir neu yr hepgorir ei wneud cyn i unrhyw amrywiad, ataliad neu ddirymiad o'r fath ddod yn effeithiol.

(3) Pan fydd y Gorchymyn hwn yn cyfeirio at ffurflen sy'n ymddangos mewn Atodlen i'r Gorchymyn hwn, rhaid cymryd bod y cyfeiriad hwnnw yn cynnwys ffurflen y mae ei heffaith yn sylweddol debyg i'r ffurflen yn yr Atodlen honno.

#### RHAN IV AMRYWIOL

##### **Gorfodi**

**13.** Rhaid i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, ac eithrio lle darperir fel arall, gael eu gweithredu a'u gorfodi gan yr awdurdod lleol.

##### **Dirymu a.y.y.b.**

**14.**-(1) Dirymir Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(a).

(2) Bydd effaith Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) 1995(b) yn darfod tra bydd y Gorchymyn hwn mewn grym.

##### **Ffurflenni**

**15.** Er gwaethaf erthygl 9 o Orchymyn Anifeiliaid (Darpariaethau Amrywiol) 1927(c), caiff yr awdurdod lleol ddarparu a chyflenwi copïau printiedig o unrhyw ddogfen neu ffurflen sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Any licence, notice, authority, or authorisation under this Order shall be in writing and-

- (a) shall be subject to such conditions as are specified in it; and
- (b) may be varied, suspended or revoked by the issuing authority by notice given to the person to whom it is issued but without prejudice to any thing done or omitted to be done before any such variation, suspension or revocation takes effect.

(3) Where this Order refers to a form which appears in a Schedule to this Order that reference shall be taken to include a form substantially to the like effect.

#### PART IV MISCELLANEOUS

##### **Enforcement**

**13.** The provisions of this Order shall, except where otherwise provided, be executed and enforced by the local authority.

##### **Revocations etc.**

**14.**-(1) The Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) Order 2002(a) is revoked.

(2) The Pigs (Records, Identification and Movement) Order 1995(b) shall cease to have effect whilst this Order is in force.

##### **Forms**

**15.** Notwithstanding article 9 of the Animals (Miscellaneous Provisions) Order 1927(c), the local authority may provide and supply printed copies of any document or form required under this Order.

---

(a) O.S.2002/281 (Cy.33).

(b) O.S. 1995/11.

(c) O.S. 1927/290.

---

(a) S.I. 2002/281 (W.33).

(b) S.I. 1995/11.

(c) S.I. 1927/290.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

am 2:31 p.m. ar 4 Medi 2002

at 2:31 p.m on 4th September 2002

*Jane Davidson*

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Education and Lifelong Learning

Llofnodwyd

Signed

am 11:30 a.m. ar 5 Medi 2002

at 11:30 a.m. on 5th September 2002

*Whitty*

Is-ysgrifennydd Seneddol

The Parliamentary Under-Secretary of State,

Yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Department for Environment, Food and Rural Affairs

**ATODLEN 1**

Erthygl 4

**COFNOD DALIAD O SYMUDIADAU**Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud)  
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Enw a chyfeiriad y person sy'n cadw'r cofnod.....

**SCHEDULE 1**

Article 4

**HOLDING MOVEMENT RECORD**The Pigs (Records, Identification and Movement)  
(Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002

Name and address of person keeping the record.....

Dyddiad y symudiad Date of movement	Y Marc Adnabod Identification mark	Nifer y Moch Number of pigs	Y safle y symudwyd hwy ohono Premises from which moved	Y safle y symudwyd hwy iddo Premises to which moved

**ATODLEN 2**

## SYMUD MOCH ANWES

TRWYDDED AR GYFER SYMUD MOCH  
ANWESGorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud)  
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2)  
2002

Trwyddedir drwy hyn .....

*(Enw a chyfeiriad y person a fydd yn symud y moch)  
a ddisgrifir yn y tabl isod.***SCHEDULE 2**

## MOVEMENT OF PET PIGS

LICENCE FOR THE MOVEMENT OF  
PET PIGSThe Pigs (Records, Identification and Movement)  
(Interim Measures) (Wales) (No.2)  
Order 2002

.....

*(Name and address of person who will be moving the  
pigs) is hereby licensed to move the pigs described in  
the table below.*

Disgrifiad o'r moch sy'n cael ei symud  Description of pig being moved	Marciau adnabod  Identification mark	Enw, cyfeiriad (gan gynnwys cod post) a rhif daliad y safle y mae'r moch i'w symud ohono ac i'w dychwelyd iddo  Name, address (including postcode) and CPH number of premises from which pigs are to be moved and returned to

Rhaid peidio â symud y moch y mae'r drwydded hon yn ymwneud â hwy ond yn unol â'r llwybrau y mae'r manylion amdanynt i'w cael yn atodlenni.....  
[mewnosodwch rifau'r atodlenni ] i'r drwydded hon.

The pigs to which this licence relates must only be moved in accordance with the routes detailed in schedules [insert schedule numbers] to this licence.

Mae'r drwydded hon yn cael ei dyroddi yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir drosodd.

This licence is issued subject to the conditions set out overleaf.

Mae'r drwydded hon yn ddilys tan .....  
(mewnosodwch y dyddiad - hyd at flwyddyn o ddyddiad ei dyroddi).

This licence is valid until *(insert date - up to 1 year from date of issue)*. It must be returned to the issuing authority if not used.

Rhaid ei dychwelyd i'r awdurdod dyroddi os nad yw wedi'i defnyddio.

Date of issue

Dyddiad dyroddi

Signature

Llofnod

Enw (*Mewn priflythrennau*)  
.....

Name (*In block letters*)  
.....

Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol  
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Divisional Veterinary Manager  
Department for Environment, Food and Rural Affairs.

PWYSIG: GWELER YR AMODAU AR Y TU CEFN

IMPORTANT SEE CONDITIONS ON THE BACK

Yr Amodau

Conditions

1. Dim ond am y cyfnod datganedig y bydd y drwydded hon yn ddilys, ac fe gaiff yr awdurdod dyroddi ei dirymu ar unrhyw adeg.

1. This licence shall be valid only for the period stated, and may be revoked by the issuing authority at any time.

2. Rhaid i'r person sy'n symud moch o dan y drwydded hon gario copi ohoni drwy gydol y symudiad ac, os gofynnir iddo wneud hynny, ei dangos i gwnstabl neu arolygydd ac, os oes ar y person hwnnw eu hangen, roi ei enw a'i gyfeiriad iddo.

2. The person moving the pig under this licence must carry a copy of it throughout the movement and produce it on demand to a constable or an inspector and, if required by that person give his name and address.

***Nodyn i'r awdurdod dyroddi:*** rhaid i'r awdurdod dyroddi anfon copi o'r drwydded hon i awdurdod lleol y gyrchfan o fewn tri diwrnod o'i dyroddi.

***Note to issuing authority:*** the issuing authority must send a copy of this licence to the local authority of the place of destination within 3 days of it being issued.



---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2002 Rhif 2303 (Cy.228)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

Gorchymyn Moch (Cofnodion,  
Adnabod a Symud) (Mesurau Dros  
Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2002 No. 2303 (W.228)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

The Pigs (Records, Identification  
and Movement) (Interim Measures)  
(Wales) (No.2) Order 2002

©© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery  
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr  
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**

W151/09/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited  
under the authority and superintendence of Carol Tullo,  
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of  
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090571-7



9 780110 905716